

# *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth y **14eg o Fedi 2010.**

Yn bresennol oedd y Cynghorwyr: Iwan Lloyd Williams (Cadair), Ifan Glyn Jones, Barry Bracegirdle (Penygroes); Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts, Richard Evans (Llanllyfni); T Les Jones (Nantlle); Eurig W Evans (Nebo); Sharon Wynne Jones, Harry Wyn Owen (Talysarn).

Byddwn yn cysylltu eto gyda'r swyddog difa pla i roi mwy o wybodaeth am y broblem llygod mawr yn Nantlle.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

\*Diwygiad cais cynllunio Victoria Hotel, Penygroes. Roedd y cais yma wedi cael ei ganiatau, sef cael fflatiau ar ddau lawr, a defnydd masnachol i'r llawr isaf. Er hyn, deallai'r Cynghorwyr bod yr adeilad yn cael ei ail-agor fel tafarn.

\*Pant Du, Penygroes – (Iwan Ll Williams yn datgan diddordeb, a ni gymerodd ran yn y drafodaeth). Cais llawn i addasu sied amaethyddol bresennol ac adeiladu adeilad amaethyddol newydd ynghlwm iddo er mwyn prosesu ffrwythau, ynghyd a chreu lolfa blasu gwin a gwerthu'r cynnyrch. Y Cyngor yn cymeradwyo'r cais.

Caniatawyd y ceisiadau canlynol gan Gyngor Gwynedd:

\*Ysgol Gynradd Bro Lleu – estyniad/rampiau;

\*Hafodlas, Talysarn – ports, ailddo adeilad allanol ayyb;

\*Gwesty Victoria, Penygroes – trosi i 3 fflat a defnydd A1 ac A2 ar y llawr gwaelod;

\*Sunnyside, Ty'n y Weirglodd, Penygroes – codi uchder to i greu llawr cyntaf ac estyniad unllawr cefn. Gwrthodwyd cais 22A Station Road, Talysarn – cais amlinellol i ddymchwel gweithdy a chodi un annedd.

Cafwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn dangos newid arfaethedig rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus ar dir yn Tal Mignedd, Nantlle. Doedd dim gwrthwynebiad gan y Cyngor i'r newidiadau.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi holi Cyngor Gwynedd beth fydda costau sefydlu arwydd rhyngweithiol wrth fynediad i Benygroes o gyfeiriad Inigo Jones.

Derbyniwyd adroddiad gan Iwth Pen am y cyfnod 09-10.

Hefyd cawsom gopi o Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Tai Eryri.

Darllenwyd llythyr gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru parthed Fforymau Cymunedol. Ni fydd fforymau yn cael eu cynnal fis Medi. Byddwn yn ysgrifennu yn ol i ddweud y dylid parhau efo'r syniad o gynnal fforwm, neu, os na fydd hyn yn bosib, bod cynrychiolwyr o'r Awdurdod yn ymweld a'r ardal, a bod y Cyngor yn cael eu hysbysu o'r dyddiadau a'r amser, fel bod Cynghorwyr yn gallu galw i mewn i drafod materion.

Cawsom lythyr yn hysbysu bod swyddfa GIG Cymru yng Nghonwy yn cau, a bod y swyddfa ardal nawr yn Llanelwy.

## **Adroddiadau Pentrefi.**

Llanllyfni. Derbyniwyd cwyn am 'Fly Tipping' yn y layby ar ol pasio cae Ty Draw. Roedd Gwyndaf wedi ffonio Cyngor Gwynedd, a'r ysbwriel wedi ei glirio; Hefyd, cafwyd nifer o gwynion am loriau ailgylchu. Roedd pobl yn cwyno bod y loriau ailgylchu yn fler ambell dro a bod ysbwriel yn cael ei adael ar eu holau. Hefyd, ym Mhenygroes a ffordd Inigo Jones, roedd cwynion bod ysbwriel yn disgyn oddi ar y lori. Roedd cwyn am y lori sydd yn casglu gwastraff bin brown, bod sug yn llifo ohoni ar hyd y ffordd ym mhentref Penygroes. Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ac yn gofyn i'r Swyddog

gael gair gyda'r gweithwyr sydd ar y lori ailgylchu fod yn fwy gwyladwrus, gan bod poteli plastic ym mhob man ar eu holau.

Talysarn. Derbyniwyd cwynion am bobl ifanc yn y maes parcio yn hwyr yn y nos, a byddwn yn cysylltu gyda'r Heddlu i ofyn iddynt fynd yno eto ar ol 11.00 yh ar nos Sadwrn.

Cafwyd cwynion am fysiau yn gor-yrru ar hyd ffordd Hyfrydle, hefyd, bysiau yn teithio oddi ar lwybr y bws ac yn troi rownd ger y cae chwarae. Roedd cwyn am fysiau sydd yn teithio o Lanllyfni i Benygroes yn gor-yrru hefyd – byddwn yn ysgrifennu at y cwmnïau bysiau i ofyn iddynt gael gair gyda'u gyrrwyr; Derbyniwyd cais i gael arwydd 'Gyrrwch yn Ofalus' ar gyfer y ddau ben o bentref Talysarn, un ym mhen Hyfrydle, ac un arall yr ochr arall i'r pentref ym Mro Silyn – byddwn yn gwneud cais i Gyngor Gwynedd; Cafwyd cwyn bod y wageni a thractors sydd yn cario llechi o Ty Mawr West heb orchudd dros y llechi, ac yn colli llechi ar hyd y ffordd. Byddwn yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd a gofyn iddynt gael gair efo perchnogion y chwarel.

Nantlle. Derbyniwyd cwyn bod y lori ysbwriel yn methu troi yn ol wrth Bryn Dulyn a'r garej gan bod cerbydau yn cael eu parcio ar y darn tir – byddwn yn gwneud cais i Gyngor Gwynedd am arwydd 'Dim Parcio'.

**Llwybrau** Trafodwyd y syniad o gymeryd mantais o'r gwasanaeth gwaith yn y gymuned sydd yn cael ei gynnig gan droseddwyr ifanc, ar gyfer torri llwybrau sydd ddim yng nghategori 1 a 2. Byddai hyn yn amlygu rhai o'r llwybrau sydd yn cau.